SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fframwaith Comisiynu

2017 -2021

Crynodeb

Pwrpas y fframwaith yma yw amlinellu amcanion a gweledigaeth gyffredinol y Comisiynydd drwy gomisiynu gwasanaethau. Bydd y fframwaith yn egluro sut y cyflawnir hyn.

Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu gan SCHTh Gogledd Cymru.

Teitl:	**Fframwaith Comisiynu**
Perchennog y Polisi:	**Prif Weithredwr**
Awdur y Polisi:	**Swyddog Comisiynu**
Rhif Polisi:	**1**
Dyddiad Cychwyn:	**23.08.2017**
Dyddiad Adolygu:	**23.08.2021**
Fersiwn:	**3.0**

Cynnwys

Cyflwyniad gan y Comisiynydd 2

1. Cyflwyniad 3
2. Cynllun Heddlu a Throsedd 3
3. Defnyddio Adnoddau 3
4. Cylch Comisiynu 4
5. Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd 4
6. Arian ar gyfer Cymunedau'r Comisiynydd 5
7. Arian ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau i Ddioddefwyr y Comisiynydd 5
8. Cyfathrebu 6

CYFLWYNIAD GAN Y COMISIYNYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Fframwaith Comisiynu. Nod y ddogfen hon ydi amlinellu beth rwyf eisiau ei gyflawni drwy gomisiynu gwasanaethau a darparu fframwaith ar gyfer sut wyf yn bwriadu gwneud hyn.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru rwyf wedi cael fy ethol gan y cyhoedd i bennu cyfeiriad strategol ar gyfer plismona. Mae rhan o fy rôl yn cynnwys comisiynu gwasanaethau naill ai yn uniongyrchol gan y gwasanaeth heddlu neu gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i gefnogi fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Cymru.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi cyfrifoldeb ar Gomisiynwyr gadw cronfa'r heddlu, sefydlu a rheoli cyllideb yr heddlu, cyflwyno grantiau a llunio cytundebau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau. Hefyd, mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 yn rhoi grym i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd gomisiynu gwasanaethau lleol ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr, tystion, neu unrhyw unigolion eraill sy'n dioddef o ganlyniad i drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rwy'n gredwr cryf mewn cydgomisiynu ac yn ystod fy nhymor fel comisiynydd byddwn yn edrych ar yr holl gyfleoedd posib. Drwy weithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Cymunedau Diogelach byddaf yn edrych am gyfleoedd i gydgomisiynu yn y dyfodol. Mae Cydgomisiynu yn ddull strategol o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd gyfannol a chyd-gysylltiedig. Er mai fy nghyfrifoldeb statudol i, a mi yn unig ydi comisiynu, yr wyf yn croesawu unrhyw strategaeth gydgomisiynu sy'n sicrhau effeithiolrwydd ac sydd yn y pendraw yn gwella'r gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr trosedd ledled yr ardal.

Yn dilyn fy etholiad ym mis Mai 2016 penderfynais gadw cynllun heddlu a throsedd terfynol fy rhagflaenydd Mr Winston Roddick. Bydd fy nghynllun cyntaf i yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017.

Yr wyf yn llwyr gefnogi'r flaenoriaeth gweithio mewn partneriaethau effeithiol a byddaf yn parhau i flaenoriaethu hyn yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Hoffwn ganolbwyntio ar y troseddau mwyaf difrifol a'r dioddefwyr mwyaf bregus. Dim ond mewn partneriaeth y gallwn fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Bydd y fframwaith comisiynu hwn yn cefnogi fy amcanion yn ogystal â fy ngweledigaeth gyffredinol.

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Fframwaith Comisiynu hwn wedi cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi dyletswydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ('y Comisiynydd') i gomisiynu gwasanaethau.

1.2 Mae'n bwysig fy mod yn gyntaf yn egluro beth yr wyf yn ei olygu drwy Gomisiynu yng nghyd-destun y fframwaith hwn. Mae Comisiynu yn ddatganiad ffurfiol o gynlluniau ar gyfer diogelu, pennu a monitro gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion unigolion ar lefel strategol. Mae'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau cyhoeddus a'r sectorau preifat a gwirfoddol.

1.3 Nid yw Comisiynu yn rhywbeth y gallaf ei wneud ar fy mhen fy hun. Mae'n golygu creu gweledigaeth a chydsyniad rhwng nifer o sefydliadau gan gynnwys partneriaid, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Er mwyn cydnabod hyn, yr wyf wedi datblygu fy ffrydiau comisiynu o fewn tri maes gwaith:

- **Cronfa'r Comisiynydd** – bwriad hon yw cynorthwyo gwaith partneriaeth effeithiol i ddarparu atebion i bobl Gogledd Cymru drwy fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd drwy Ogledd Cymru wrth asesu trosedd ac anrhefn.
- **Arian y Comisiynydd ar gyfer cymunedau** – sy'n bwriadu rhoi arian sydd ar gael i gymunedau i gefnogi atebion sy'n seiliedig ar y gymuned er mwyn lleihau trosedd.
- **Arian ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau i Ddioddefwyr** – Dyma raglen gwaith newydd a fydd yn anelu darparu gwasanaethau trwy Ogledd Cymru er mwyn cynorthwyo dioddefwyr trosedd.

2. Y Cynllun Heddlu a Throsedd

2.1 Prif nod y fframwaith hwn yw cynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd a chynorthwyo fy mlaenoriaethau.

2.2 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer Gogledd Cymru rwyf wedi gosod pedwar amcan newydd ar gyfer y gwasanaeth plismona, sef: Atal trosedd; Darparu ymateb priodol; Lleihau niwed a'r risg o niwed ac Adeiladu partneriaethau effeithiol. Caiff ei diweddaru wedi adolygu'r cynllun.

2.3 Drwy gydol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yr wyf wedi tanlinellu pwysigrwydd gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Yr wyf yn bwriadu gweithio'n agos â phartneriaid lleol i flaenoriaethu adnoddau a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol er mwyn comisiynu gwasanaethau.

3. Defnyddio Adnoddau

3.1 Mae Comisiynu ynghylch sicrhau y canlyniadau gorau a'r gwerth gorau mewn modd cynaliadwy tymor hir drwy wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael gan arian i bartneriaethau, ynghyd ag:

- angen deall anghenion defnyddwyr a'r cymunedau lleol (gan gynnwys ceisio adborth) a rhoi hynny wrth galon y broses gomisiynu
- ymgysylltu arbenigedd y trydydd sector a sefydliadau arwain y farchnad er mwyn deall y cyfraniad y gallent ei wneud ac ystyried buddsoddi o fewn y meysydd hynny er mwyn gwella cyflwyno gwasanaeth.

3.2 O fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd sefydlais egwyddorion er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithiol ac yn effeithlon, a bydd yr egwyddorion hyn hefyd yn berthnasol i'r Fframwaith Comisiynu:

- Sicrhau bod yr adnoddau yn canolbwyntio ar ein prif bwrpas – darparu Gogledd Cymru diogelach.
- Targedu adnoddau er mwyn cyflawni'r Amcanion Heddlu a Throsedd.
- Cynyddu gallu gwasanaethau rheng flaen.
- Sicrhau fod gwasanaethau cynorthwyol wedi'u symleiddio yn gweithio i ddarparu gwir gymorth i'r rheng flaen.
- Gweithio gyda'n partneriaid er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu.
- Sicrhau gwerth am arian.
- Cyflwyno Gwerth Cymdeithasol ar ffurf lles Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol i bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

4. Cylchred Comisiynu

4.1 Yr wyf wedi datblygu fy ffrydiau gwaith comisiynu o fewn tri maes gwaith. Mae hynny er mwyn cael darlun mwy eglur o sut yr wyf yn bwriadu darparu'r meysydd gwaith gwahanol, er mwyn adlewyrchu ar gamau datblygu gwahanol bob un o'r meysydd hyn a thanlinellu beth ydi'r bwriad strategol. Bydd y tri maes gwaith yn dilyn y cylch comisiynu craidd isod:

DEALL	Nodi canlyniadau, anghenion, adnoddau a blaenoriaethau lleol; alinio gwasanaethau ar y cyd â rhanddeiliaid sy'n cymryd gwybodaeth am y darparwr a'r defnyddiwr gwasanaeth i ystyriaeth ac adeiladu ar waith eraill.
CYNLLUNIO	Sut i fynd i'r afael ag anghenion yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac mewn ffordd gynaliadwy, yn unigol ac ar y cyd.
GWNEUD	Gwneud penderfyniadau er mwyn gwella canlyniadau cyd-gomisiynu.
ADOLYGU	Monitro cyflwyno gwasanaeth yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig ac adrodd ar ba mor dda y mae'n ei wneud yn erbyn y cynllun a chydnabod nad yw hwn yn gylch caeedig ond yn gylch parhaus.

4.2 Mae canlyniadau yn benodol o berthnasol yng nghamau ***gwneud, adolygu a chynllunio'r*** cylch comisiynu ac adlewyrchant newidiadau, manteision neu ddysgeidiaeth o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarperir.

5. Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd

5.1 Mae'r tirlun cyllido wedi newid o ganlyniad cyflwyno Comisiynwyr.

5.2 Penderfynodd y Swyddfa Gartref roi arian grant y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (RhYC), Grant Profi Cyffuriau RhYC a Nawdd Atal Troseddau a Chamddefnyddio Sylweddau ymysg yr Ifanc i'r Comisiynwyr.

5.3 Yn 2013/14 rhoddodd y Swyddfa Gartref £1,379,000 i Ogledd Cymru (gostyngiad o £174,734 o gymharu â'r swm a gafwyd yn 2012/13). Yn 2014/15 gwnaeth y Swyddfa Gartref symud yr arian hwnnw fel ei fod yn rhan o'r grant plismona craidd, yn hytrach

na'i fod y cael ei roi i'r Comisiynwyr fel ffrwd arian ar wahân. Mae'r newid hwn yn rhoi gwell hyblygrwydd i ymateb i anghenion lleol, ond mae hefyd yn amlygu'r toriadau a wnaed gan Lywodraeth Ganolog i'r gronfa blismona gyffredinol yn 2014/15.

5.4 Ar gyfer 2017/18 yr wyf wedi dyrannu £1,166,000 i Gronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd. Ar gyfer 2015/16 roedd y ffigwr cyllid yn £1,130,178.00 er mwyn cynorthwyo gweithgareddau a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon sef 2016/17 mae £1,130,178,000 wedi cael ei roi i asiantaethau a sefydliadau ledled Gogledd Cymru.

5.5 Nid yw dyrannu Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd yn cyfrif am yr holl arian a ddefnyddir yng Ngogledd Cymru ar gyfer cynorthwyo diogelwch cymunedol. Y nod yw darparu atebion amlasiantaeth i anghenion a nodwyd yn yr asesiad strategol blynyddol o ddiogelwch cymunedol sy'n gweithio tuag at ddiwallu'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

6. Arian ar gyfer Cymunedau'r Comisiynydd

6.1 Yr wyf yn gwybod bod yna gymunedau a sefydliadau sydd â phrosiectau arloesol sy'n ceisio gwneud ein cymunedau yn ddiogelach. Mae'n bwysig fy mod i hefyd, drwy'r Fframwaith Comisiynu, yn sicrhau bod modd i gymunedau gael mynediad i nawdd er mwyn cefnogi'r gwaith hwn yn uniongyrchol.

6.2 Yn 2017/18 arbrofais ar raglen grantiau cyllideb gyfranogol sef "Eich Cymuned, Eich Dewis". Bob blwyddyn bydd cyfanswm o £42,000 ar gael ar draws Ogledd Cymru er mwyn ariannu hyd at 12 prosiect. Trigolion Gogledd Cymru fydd yn penderfynu pa brosiectau fydd yn cael yr arian.

6.3 Yr wyf yn bwriadu parhau i ariannu elusen Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned **(PACT).** Mae'r elusen wedi sefydlu nifer o raglenni nawdd gwahanol gan gynnwys Cronfa Grantiau Bychan Tîm Plismona'r Gymdogaeth (mae grantiau o hyd at £250.00 ar gael i Swyddogion Heddlu i'w cynorthwyo i gefnogi grwpiau cymunedol lleol) a grantiau o hyd at £2,000.00 ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol (derbynnir ceisiadau gan bob grŵp sy'n gweithio mewn partneriaeth a'u Tîm Plismona'r Gymdogaeth).

7. Arian ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau i Ddioddefwyr y Comisiynydd

7.1 Yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi arian i'r Comisiynwyr gomisiynu gwasanaethau lleol ar gyfer dioddefwyr a datblygu cyfiawnder adferol.

7.2 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau bod yn gyfrifol am gomisiynu rhai gwasanaethau cynorthwyol heriol ac arbenigol, gan gynnwys:

- Canolfannau cefnogi dioddefwyr treisio (nid Canolfannau Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhyw)
- Gwasanaethau dynladdiad
- Gwasanaeth i dystion sy'n mynychu'r llys
- Dioddefwyr masnachu pobl
- Llinell Gymorth Genedlaethol Dioddefwyr

7.3 Er mwyn paratoi ar gyfer comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yr wyf wedi comisiynu asesiad annibynnol o anghenion er mwyn nodi beth yw anghenion dioddefwyr Cymru o ran gwasanaethau cymorth. Cafodd yr asesiad anghenion hwn a ddaeth i ben ym Mehefin 2014 ei ddefnyddio i ddatblygu bwriadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr yng Nghymru. Fy mwriad yw comisiynu gwasanaethau cymorth cyffredinol priodol yn ogystal â chymorth mwy dwys i ddioddefwyr sydd wedi dioddef yn emosiynol, yn gorfforol ac fel arall. Bydd y gwasanaethau cymorth cyffredinol yn weithredol o Ebrill 2015 ymlaen, a byddaf yn comisiynu gwasanaethau arbenigol o fis Hydref 2014 ymlaen.

7.4 Ar gyfer 2017/18 mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dyrannu £814,076 i Ogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr. Fodd bynnag, defnyddir £757,634 ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr craidd a chlustnodir £56,442 er mwyn cynorthwyo gwasanaethau camdriniaeth rywiol.

7.5 Ymgymerir rhagor o waith o ran comisiynu rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd newydd sy'n bodoli ar gyfer ein gwasanaethau o ystyried yr hinsawdd bresennol o gyfyngiadau ariannol llym.

8. Cyfathrebu

8.1 Byddaf yn cyhoeddi'r ddogfen hon yn ogystal â manylion prosiectau a rhaglenni gwaith sy'n derbyn cymorth ariannol drwy'r fframwaith comisiynu hwn ar fy ngwefan http://www.northwales-pcc.gov.uk.